Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Geirfa'r Gyfraith

# Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r termau technegol a deddfwriaethol Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r **Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)** ('y Bil'), a hynny er gwybodaeth i Aelodau.

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar **29 Ebrill 2013**. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Bil at y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** (o ran y darpariaethau addysg bellach) a'r **Pwyllgor Menter a Busnes** (o ran y darpariaethau addysg uwch). Mae **crynodeb o'r Bil** a **rhestr o dermau deddfwriaethol cyffredinol** ar gael mewn dogfennau ar wahân.

## Y termau sy'n benodol i'r Bil

- Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 – **Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009**
- appropriate authority – **yr awdurdod priodol**
- audit and financial health monitoring – **archwilio a monitro cyflwr ariannol**
- borrowing – **benthyca**
- collaboration – **cydlafurio** (*yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth*)/**cydweithio** (*yn yr ystyr gyffredin*)
- common inspection framework for education and training in Wales (Estyn) – **fframwaith arolygu cyffredin addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)**
- conditions of funding – **amodau ariannu**
- co-operation arrangement – **trefniant cydweithredu**
- corporation – **corfforaeth**
- charitable incorporated organisation – **sefydliad elusennol corfforedig**
- charitable purposes – **dibenion elusennol**
- charitable status – **statws elusennol**
- data link – **cyswllt data**
- data sharing gateway – **porth rhannu data**
- delegate – **dirprwyo**
- designated institution(s) – **sefydliad(au) dynodedig**
- dissolution date – **dyddiad y diddymu**
- dissolve/dissolution – **diddymu**
- Education Act 2002 – **Deddf Addysg 2002**
- educational character and mission of the institution – **cymeriad addysgol a chenhadaeth y sefydliad**
- eligibility – **cymhwystra**
- exercise (e.g. a power) – **arfer (e.e. pŵer)**
- first post-designation instruments and articles – **yr offerynnau a'r erthyglau ôl-ddynodi cyntaf**
- governing body – **corff llywodraethu**
- fraud – **twyll**
- function(s) – **swyddogaeth(au)**
- Further and Higher Education Act 1992 – **Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992**
- further education (FE) – **addysg bellach (AB)**

- further education corporations – **corfforaethau addysg bellach**
- further education institution(s) (FEIs) – **sefydliad(au) addysg bellach (SAB)**
- higher education (HE) – **addysg uwch (AU)**
- HM Revenue and Customs – **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**
- household income – **incwm yr aelwyd/incwm aelwydydd**
- incorporate/incorporation – **corffori**
- institution(s) – **sefydliad(au)**
- instrument and articles of government – **offeryn ac erthyglau llywodraethu**
- intervention power(s) – **pŵer (pwerau) ymyrryd**
- investing – **buddsoddi**
- Learning and Skills Act 2000 – **Deddf Dysgu a Sgiliau 2000**
- means test – **prawf modd**
- modify or replace – **addasu neu ddisodli**
- national accounts – **cyfrifon gwladol**
- non-profit institutions serving households (NPISH) – **sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH)**
- Office for National Statistics (ONS) – **y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr ONS)**
- Office of the Independent Adjudicator – **Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol**
- on trust – **dan ymddiriedolaeth**
- partnership working – **gweithio mewn partneriaeth**
- property, rights and liabilities – **eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**
- quality and effectiveness framework – **fframwaith ansawdd ac effeithiolrwydd**
- reclassify – **ailddosbarthu**
- regulated provider – **darparwr rheoleiddiedig**
- secondary education – **addysg uwchradd**
- sixth form college(s) – **coleg(au) chweched dosbarth**
- sponsor(s) – **noddwr (noddwyr)**
- Student Finance Wales – **Cyllid Myfyrwyr Cymru**
- student grant(s) – **grant(iau) i fyfyrwyr**
- student loan(s) – **benthyciad(au) i fyfyrwyr**
- Student Loans Company – **y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr**
- student support – **cymorth i fyfyrwyr**
- subsidiary – **is-gorff**
- supply of information – **cyflenwi gwybodaeth**
- tax record(s) – **cofnod(ion) treth**
- Teaching and Higher Education Act 1998 – **Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**
- terms and conditions – **telerau ac amodau**
- transfer – **trosglwyddo**
- widening access – **ehangu mynediad**
- working conditions – **amodau gwaith**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Siân Eleri Richards (**sian.richards@cymru.gov.uk**, estyniad 8405), yn y Gwasanaeth Ymchwil.